

## HARRI, EDWARD (1752? - 1837) bardd a gwehydd

**Enw:** Edward Harri  
**Dyddiad geni:** 1752?  
**Dyddiad marw:** 1837  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd a gwehydd  
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Barddoniaeth  
**Awdur:** Watkin William Price

Ganwyd yn Penderyn, sir Frycheiniog, eithr symudodd yn gynnar yn ei oes i Cefn-Coed-y-Cymer. Pan fu farw ar 20 Awst 1837, yn 85 oed, yr oedd wedi bod am 60 mlynedd yn aelod yn 'Hen Dŷ Cwrdd' Cefn Coed, eglwys Undodaidd, ac yn briod am 50 mlynedd. Fe'i goroeswyd gan bedwar o blant a 32 o wŷrion ac wŷresau; yr oedd 'Cynonwyson' yn fab i un o'i ferched. Ar un cyfnod, pan oedd yn gyfyng ei amgylchiadau, talodd ei eglwys 1/- iddo - 'Charity to Edward Harri, 1/-.' Ceir y cofnod hwn hefyd yn un o lyfrau'r eglwys - 'July 22, 1827, Edward Harri, weaver, and his wife have been restored and partook of the Lord's Supper.' Ychydig o'i waith barddonol sydd ar gadw - dim ond 'Cynghorion idd ei wŷr' a 'Galar-gan ar ol ei wraig.' Yr oedd **William Harri**, Garw Dyle, yn frawd iddo.

### Awdur

**Watkin William Price**, (1873 - 1967)

### Ffynonellau

W. Morgan, *The Vaynor handbook containing photographic views of Vaynor, Cefn Coed, Pontsarn and Morlais Castle, with the history and folk-lore of the parish* (Merthyr 1893)

T. Lewis, *The History of the Hen Dy Cwrdd Cefn Coed y Cymmer* (1947)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732944](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Grannu

Arddull APA

x

Price, W. W., (1953). HARRI, EDWARD (1752? - 1837) bardd a gwehydd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HARR-EDW-1752>

Grannu

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government